CYNLLUN Y **CEIDWADWYR CYMREIG** I DRWSIO'R **SYSTEM ADDYSG**

ETHOLIAD **SENEDD CYMRU** 2026

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

#TRWSIOCYMRU

Hyrwyddwyd gan Kate Vaughan ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, Canolfan Busnes Pro-Copy, Parc Tŷ Glas, Caerdydd, CF14 5DU

RHAGAIR

Mae rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl ifanc yn elfen hanfodol o'n cenhadaeth i drwsio Cymru a chael Cymru i weithio.

Mae allbwn economaidd Cymru, wedi'i fesur gan Werth Ychwanegol Gros, mesur allweddol o gynhyrchiant economaidd, ond yn 74% o gyfartaledd y DU, yr isaf o holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU. Ar ôl 27 mlynedd o lywodraethau Llafur olynol, wedi'u cynnal gan Blaid Cymru, mae gan Gymru un o'r cyfraddau uchaf o anweithgarwch economaidd a diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Mae torri cylch diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn dechrau yn ifanc, gan roi'r sgiliau sydd eu hangen ar ein pobl ifanc i fynd ar lwybr at yrfa lwyddiannus. Mae hyn yn golygu bod angen i'n system ysgolion adlewyrchu'n well yr ystod amrywiol o sgiliau sydd eu hangen i bweru ein gweithlu yn y dyfodol, gan gynnwys crefftau llaw a hyfforddiant galwedigaethol.

Mae sicrhau y gall pob person ifanc adael addysg gyda'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gael swydd yn rhoi diogelwch economaidd siec gyflog misol iddynt, ond mae hefyd yn eu grymuso i wneud pethau eraill fel mynd ar yr ysgol eiddo neu brynu car.

I drwsio ein system addysg, mae angen i ni adfer disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth, codi safonau a gwella dewis rhieni a disgyblion. Mae Llafur yn credu bod y pŵer i ddewis yn elitaidd, ond mae'n ffordd o rymuso disgyblion a rhieni, rhoi mwy o lais iddynt dros eu haddysg a chodi safonau. Ni all ein heconomi fforddio i genhedlaeth arall o bobl ifanc gael eu hatal gan Lafur a system addysg nad yw'n cyflawni eu potensial.

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig gynllun i drwsio ein system addysg a chael Cymru i weithio. Mae'n gynllun y gallwch chi helpu i'w gyflawni trwy bleidleisio dros y Ceidwadwyr Cymreig ddydd Iau 7fed Mai.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn drwsio Cymru.

Darren Millar
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig

Ar ôl bron i dair degawd o lywodraeth Lafur yng Nghymru, mae ein system addysg yn tanberfformio o'i gymharu â gweddill y DU ac yn anffodus mae ar ei hôl hi o gymharu â llawer o wledydd Ewropeaidd cymharol.

Rydw i wedi edrych ar yr asesiadau rhyngwladol, ac maen nhw wedi helpu i dynnu fy sylw at yr angen brys am welliant. Rydw i'n pryderu bod canlyniadau Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) yr OECD wedi dangos dro ar ôl tro fod disgyblion Cymru yn perfformio, ar gyfartaledd, islaw disgyblion Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y sgiliau craidd darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid yw hynny'n deg ar bobl ifanc.

O'r nifer o sgyrsiau rydw i wedi'u cael gydag athrawon, penaethiaid ac arbenigwyr addysg, mae heriau parhaus ynghylch llythrennedd a rhifedd, ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, recriwtio athrawon, y Cwricwlwm newydd i Gymru, presenoldeb yn yr ysgol a chefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd i gyd yn cyfrannu at system ac athrawon dan bwysau cronig.

Mae gennym gynllun uchelgeisiol i drwsio ein system addysg, yn gyntaf trwy wella ymddygiad i sicrhau bod yr ystafell ddosbarth yn amgylchedd dysgu addas. Mae hyn yn golygu gwahardd ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth, atal pobl dan 16 oed rhag cael mynediad at gyfryngau cymdeithasol a grymuso athrawon i osod disgyblaeth. Byddwn yn codi safonau cyrhaeddiad mewn cymwysterau academaidd, ond hefyd yn gwella mynediad at lwybrau galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau a phrentisiaethau gradd.

Byddwn yn cefnogi ein sectorau addysg bellach ac uwch ac yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i wneud newidiadau ffafriol i gyllid myfyrwyr er mwyn lleihau taliadau llog dyled myfyrwyr. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno system addysg sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith ac yn eu cyfarparu â'r ystod eang o sgiliau bywyd sydd eu hangen arnynt i chwarae rhan lawn yn ein heconomi a'n cymdeithas ehangach.

Mae ein cynllun i drwsio addysg yn uchelgeisiol a bydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu nodi a meithrin eu talentau eu hunain a mynd ar lwybr at yrfa werth chweil.

Natasha Asghar
Ysgrifennydd y Cabinet Cysgodol dros Addysg

POLISÏAU MANIFFESTO ADDYSG

DYMA WNAIFF **LLYWODRAETH CEIDWADWYR CYMREIG:**

BUDDSODDWCH YN EIN HYSGOLION

- Cynyddu cyllid ysgolion ym mhob blwyddyn o Senedd Cymru nesaf
- Cyflwyno Fformiwla Ariannu Ysgolion Cenedlaethol i lefelu cyllid fesul disgybl ledled Cymru
- Ariannu ysgolion yn uniongyrchol i sicrhau bod mwy o arian yn mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth
- Darparu cyllidebau dangosol tair blynedd i ddarparwyr addysg i gynorthwyo gyda rheolaeth ariannol

DARPARU AMGYLCHEDD DYSGU O ANSAWDD UCHEL

- Cyflwyno rhaglen adeiladu ysgolion newydd uchelgeisiol
- Annog creu ysgolion arbenigol newydd yn y celfyddydau, y gwyddorau a chwaraeon
- Diogelu meysydd chwarae ysgolion a chyfleusterau chwaraeon rhag cau a gwerthu
- Ehangu mynediad at gyfleusterau ysgolion, er mwyn galluogi mynediad cymunedol y tu allan i oriau ysgol ac amseroedd tymor

GWELLA SAFONAU

- Caniatáu sefydlu Ysgolion Academi ac Ysgolion Rhydd yng Nghymru i wella canlyniadau dysgwyr
- Codi safle Cymru mewn tablau cynghrair addysg rhyngwladol
- Sefydlu Gwasanaeth Cynghori Addysg Cymru Gyfan i hyrwyddo arfer da
- Ymestyn arolygiadau ysgolion heb rybudd
- Gwella llythrennedd gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys cyflwyno Ffoneg Synthetig Systematig i ysgolion Cymru
- Adolygu Cwricwlwm Cymru
- Cychwyn Profion Asesu Safonol mewn ysgolion cynradd i fesur cynnydd disgyblion a pherfformiad ysgolion
- Dileu Bagloriaeth Cymru i ganiatáu i ddisgyblion ganolbwyntio ar gymwysterau a gydnabyddir yn rhyngwladol
- Sefydlu Cronfa Ragoriaeth Cymru i helpu disgyblion mwy abl a thalentog i wireddu eu potensial llawn

CEFNOGI GWEITHWYR PROFFESIYNOL AC ADFER DISGYBLAETH

- Adfer disgyblaeth a pharch, a gwella presenoldeb yn yr ysgol, drwy Gyfamodau Ysgol rhwng rhieni, athrawon a disgyblion
- Cyflwyno diarddeliadau awtomatig i ddisgyblion sydd â chyllyll ac arfau eraill yn eu meddiant
- Helpu athrawon i fynd i'r afael â bwlio drwy wahardd ffonau symudol mewn ysgolion a chefnogi gwaharddiad ar gyfryngau cymdeithasol i blant dan 16 oed
- Grymuso Cyngor y Gweithlu Addysg i sefydlu llwybrau newydd i'r proffesiwn addysgu
- Dileu rhwystrau diangen i fynediad i'r proffesiwn addysgu ar gyfer athrawon, darlithwyr addysg bellach, cyn-filwyr a staff addysgu mewn ysgolion annibynnol sydd wedi'u hyfforddi dramor ac sydd wedi'u cymhwyso'n addas
- Gweithio gydag athrawon i sefydlu cynllun gweithlu athrawon ac athrawon cyflenwi

HYRWYDDO LLES, DIOGELWCH A SGILIAU BYWYD DYSGWYR

- Diogelu mannau a chwaraeon i fenywod a merched yn unig mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion Cymru
- Hyrwyddo dyhead, menter ac entrepreneuriaeth drwy sefydlu menter gymdeithasol ym mhob ysgol uwchradd
- Gwneud Cymru yn Genedl o Achubwyr Bywyd drwy gyflwyno hyfforddiant cymorth cyntaf ym mhob ysgol
- Darparu mynediad at Gwnselwyr Canllaw enwebedig ym mhob ysgol
- Sicrhau bod gan bob ysgol, coleg a phrifysgol wasanaethau iechyd meddwl a lles i ddysgwyr eu cyrchu
- Cyflwyno Premiwm Disgybl Gwasanaeth i gefnogi plant personél milwrol
- Sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol fel cyllidebu, sut i reoli cartref a pharatoi pryd iach drwy gyflwyno gwersi Economeg Cartref gorfodol
- Adolygu deddfwriaeth a threfniadau cymorth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Lleihau amseroedd aros ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol ac asesiadau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Rhyddhau amser addysgu drwy osod mwy o arbenigwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu cyllid cynaliadwy ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gwarantu mynediad at brofiadau addysg awyr agored

CEFNOGI TEULUOEDD

- Ymestyn gofal plant am ddim i blant rhwng 9 mis a 4 oed i helpu teuluoedd i gyllidebu a galluogi dychwelyd i'r gwaith
- Rhoi dewis i rieni sy'n gweithio enwebu taid neu nain i dderbyn Taliad Gofal Plant Taid neu Nain o hyd at £4,800 y flwyddyn
- Darparu mynediad cyffredinol i wersi rhianta am ddim i arfogi mamau a thadau â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fagu eu plant yn hyderus a chefnogi perthnasoedd iach gartref
- Diogelu plant trwy gomisiynu ymchwiliad Cymru gyfan i gangiau meithrin perthynas
- Gweithio gyda darparwyr gofal plant i wneud system gofal plant Cymru yn fwy cynaliadwy

GWELLA HAWLIAU A DEWIS RHIANT

- Ailsefydlu'r hawl i rieni dynnu eu plant allan o wersi addysg rhyw ac addysg grefyddol
- Sefydlu Porth Perfformiad Ysgolion Cymru i hyrwyddo dewis a helpu rhieni a dysgwyr i gymharu data ar ganlyniadau arholiadau ysgol, presenoldeb, diarddeliadau, perfformiad ariannol, a chael mynediad hawdd at adroddiadau arolygu
- Galluogi ysgolion da sydd wedi'u gordanysgrifio i gynyddu eu lleoedd disgyblion
- Creu mwy o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg
- Gofyn i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan rieni ddewis i'w plant o ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg
- Diogelu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys i ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol ffydd neu cyfrwng Cymraeg agosaf

EHANGU MYNEDIAD I'R BRIFYSGOL A GWELLA PROFIADAU MYFYRWYR

- Gweithio ar frys gyda Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i ddarparu cyllid cyhoeddus cynaliadwy, gyda ffocws ar gyrsiau rhan-amser ac addysg uwch hyblyg
- Treialu gostyngiad ffioedd dysgu o £1,000 i'r rhai sy'n astudio pynciau STEM
- Gweithio gyda Phrifysgolion Cymru i gyflwyno graddau dwys y gellir eu cwblhau dros ddwy flynedd
- Gofyn i brifysgolion gyhoeddi mwy o ddata ar enillion a chanlyniadau cyflogaeth i'w myfyrwyr
- Annog pobl i ddilyn cyrsiau rhan-amser, dysgu o bell a chyrsiau addysg uwch ac addysg bellach hyblyg
- Ad-dalu ffioedd dysgu Prifysgol i fyfyrwyr nyrsio, meddygaeth, addysgu a deintyddiaeth sy'n astudio yng Nghymru ac yn mynd ymlaen i weithio am o leiaf 5 mlynedd yn GIG Cymru neu ysgolion Cymru
- Helpu pobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant gyda theithio bws am ddim i bobl 16-24 oed
- Cyflwyno Safon Ansawdd Llety Myfyrwyr ar gyfer neuaddau preswyl
- Dileu gwrthsemitiaeth a mathau eraill o hiliaeth a chasineb ar gampysau prifysgolion ac addysg uwch
- Partneru â phrifysgolion Cymru a'r sector preifat i greu canolfan ragoriaeth ac ymchwil newydd i storio a chludiant ynni
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i leihau'r cyfraddau llog ar ddyled myfyrwyr a thorri cyrsiau gradd, sy'n tueddu i arwain at ragolygon swyddi gwaeth.

HYRWYDDO SGILIAU GALWEDIGAETHOLA DYSGU GYDOL OES

- Sicrhau cydraddoldeb rhwng addysg dechnegol ac academaidd
- Darparu strategaeth STEM Gymreig, gyda diwygiadau gan gynnwys torri ffioedd dysgu i fyfyrwyr Cymru ym mhrifysgolion Cymru, amddiffyn y dyfarniad triphlyg TGAU gwyddoniaeth a chyflwyno Lefelau T Cymru
- Creu strategaeth gydgysylltiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, yr holl ffordd o ysgolion i hyfforddiant yn y gweithle
- Gosod targed uchelgeisiol i ddarparu 125,000 o brentisiaethau dros dymor nesaf y Senedd i ddiwallu'r sgiliau sydd eu hangen ar Gymru i yrru twf economaidd
- Darparu cyfleoedd prentisiaeth o bob prosiect seilwaith mawr a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Ehangu prentisiaethau gradd a mynediad at gyrsiau addysg uwch mewn colegau Cymru
- Meithrin gweithio mewn partneriaeth rhwng Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer ymchwil ac arloesi
- Gwneud Cymru yn Genedl Ddysgu Gydol Oes trwy hawliau i gefnogaeth i bobl ddysgu, uwchsgilio neu ailhyfforddi drwy gydol eu bywydau gwaith
- Hyrwyddo ymgysylltiad â Chynllun Turing ar gyfer pobl ifanc sydd eisiau profi astudio, gwirfoddoli a gweithio dramor
- Sefydlu Academi Amddiffyn Cymru sy'n canolbwyntio ar STEM